

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR PRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2014/15

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir ym Mharagraff 3(2) Adran 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig

Bu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru hysbysebu'r Panel ar 13 Ionawr, 2014 o'i Braesept Plismona arfaethedig ar gyfer 2014/15.

Ystyriodd y Panel yr adroddiad a oedd yn amlinellu lefel arfaethedig y praesept plismona a'r gyllideb ar gyfer 2014/15 yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Llun 20 Ionawr 2014. Adolygodd Aelodau'r Panel y cynnydd arfaethedig ac ystyried y materion yn ymwneud â'r gostyngiad mewn taliadau grant; yr effaith ar Dreth y Cyngor Band D (cynnydd o 2.00% neu £4.50 y flwyddyn); yr arbedion a oedd wedi eu gwireddu yn gynharach na'r disgwyl; y targedau arbedion ar gyfer 2014/15 a thu hwnt; y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; ac effaith unrhyw gynnydd ar y praesept.

Cytunodd y Panel i gefnogi'r Comisiynydd a'i gynigion mewn perthynas â'r praesept plismona, a fyddai'n galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu Heddlu a gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Argymhellion

- (a) Cymeradwyo'r praesept ar gyfer 2014/15 o £64,102,385 yn seiliedig ar gynyddu Treth y Cyngor Band D o 2% (cynnydd o £4.50 y flwyddyn, 9c yr wythnos) i £227.61, sy'n golygu cyfanswm cynnydd praesept o 3.19%.**
- (b) Nodi'r cyllid sydd ar gael a'r gofyniad cyllideb o £141.20 miliwn, gostyngiad o -1.31%.**
- (c) Nodi arbedion o £4.325 miliwn ar gyfer 2014/15.**
- (d) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n amlinellu cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor o 2% ar gyfer pob blwyddyn hyd at 2017/18 yn seiliedig ar ostyngiad o 3.2% yn y grant plismona yn 2015/16 a 3% yn y ddwy flynedd ganlynol.**
- (e) Nodi crynodeb o'r Gyllideb ar gyfer 2014/15.**